

NEWPORT CITY HOMES – DATGANIAD CAETHWASIAETH FODERN – 2018/19

Mae'r datganiad hwn wedi'i gyhoeddi yn unol â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac mae'n cynnwys datganiad caethwasiaeth a masnachu mewn pobl y Gymdeithas am y flwyddyn ariannol sy'n gorffen 31 Mawrth 2019.

Cyflwyniad - Ym mis Hydref 2015, daeth y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern i rym sy'n gwneud hi'n ofynnol i bob busnes gyda throsiant o dros £36m i gyhoeddi datganiad sy'n nodi ei weithrediadau er mwyn deall a mynd i'r afael â phob risg caethwasiaeth a masnachu mewn pobl posib o fewn ei sefydliad a chadwyni cyflenwi cysylltiedig.

Strwythur - Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (RSL) yw Newport City Homes (NCH) sydd wedi'i sefydlu yng Nghasnewydd ac sy'n darparu tai cymdeithasol am oddeutu 10,000 cartref ledled dinas Casnewydd, gyda chadwyni cyflenwi sy'n gweithredu yn y DG yn unig, gyda'r mwyafrif ohonynt yn lleol i Gasnewydd. Mae NCH yn cyflogi 326 o weithwyr ar hyn o bryd gyda throsiant blyneddol o £44.2 miliwn.

Diwydrwydd Gofynnol - Mae gan y Gymdeithas mesurau diogelwch sy'n gwneud hi'n ofynnol i'w gyflenwyr a'i contractwyr cydymffurfio â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern, ac mae'n ymrwmo i beidio â byth ymrwmo'n wybodus gyda chyflenwyr neu contractwyr sy'n cymryd rhan mewn caethwasiaeth a/neu masnachu mewn pobl. Trwy weithredu gwiriadau cadarn, mae risg caethwasiaeth a masnachu mewn pobl ledled y Gymdeithas ac o fewn ei gadwyn gyflenwi wedi cael ei hasesu fel isel. Serch hynny, mae'r Gymdeithas wedi ymrwmo i ymagwedd dim goddefgarwch tuag at gaethwasiaeth a masnachu mewn pobl, ac mae'r Datganiad Caethwasiaeth Fodern hwn yn cadarnhau ei hymrwymiad i ymddwyn yn foesebol a gyda gonestrwydd ledled y Gymdeithas a'r gadwyn gyflenwi gysylltiedig.

Yr hyn sydd eisoes ar waith

Mae polisiâu a gweithdrefnau'r Gymdeithas yn adlewyrchu ei hymrwymiad i ymddwyn yn foesebol a gyda gonestrwydd:

- Mae proses gaffael y Gymdeithas yn gofyn i bob contractwr/cyflenwr posib sydd â throsiant o £36m neu fwy i gyflwyno copi i'r Gymdeithas o'u datganiad Ddeddf Caethwasiaeth Fodern a chadarnhad, ar bapur, eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern.
 - Fel rhan o'r broses gaffael bydd pob contractwr/cyflenwr gyda throsiant o £36m neu fwy yn sicrhau, ar ôl iddynt gael eu penodi, bod unrhyw is-contractwr/cyflenwr sy'n cynnig gwasanaethau i NCH yn cydymffurfio â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015.
 - Mae Polisi Gwrth-llwgrwobrwyo'r Gymdeithas wedi ymrwmo i weithredu'r safonau uchaf o ymddygiad moesebol a gonestrwydd ar draws gweithgareddau'r Gymdeithas. Mae pob gweithiwr ac unigolyn sy'n gweithredu ar ran y Gymdeithas yn gyfrifol am gynnal enw da'r Gymdeithas ac am gynnal busnes mewn ffordd onest a phroffesiynol.


- Mae Polisi Chwythu'r Chwiban y Gymdeithas wedi ymrwymo i safonau uchaf ansawdd, tryloywder ac atebolrwydd, gyda gweithdrefn sefydledig er mwyn gallu codi unrhyw bryder camarfer yn hyderus ac yn unol â deddfwriaeth berthnasol gyfredol.
- Er mwyn cefnogi'r Gymdeithas i atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl yn eiddo NCH:
 - Mae cymhwyster darpar denantiaid i dai'n cael ei asesu gan Gyngor Dinas Casnewydd sef perchnogion y gofrestr tai cyffredinol o fewn Casnewydd.
 - Mae CDC yn gweithredu asesiad 'Dod i'ch Adnabod' gyda phob ymgeisydd tenantiaeth er mwyn dilysu'r wybodaeth a gyflwynwyd cyn bod cynnig am lety'n cael ei wneud.
 - Mae'r Gymdeithas yn adnewyddu ei data mewnwelediad ar ôl pob rhyngweithiad gyda phreswylwyr er mwyn lliniaru risg twyll tenantiaeth.
- Mae cytundeb tenantiaeth y Gymdeithas yn galluogi archwiliad llawn i unrhyw dor tenantiaeth posib, gan gynnwys defnydd anghyfreithlon neu anfoesol o'r annedd, gan weithio gydag asiantaethau partner er mwyn datrys achosion o'r fath.
- Mae staff NCH yn gweithredu o fewn canllawiau diogelu ac maen nhw wedi'u hyfforddi i adnabod, i fonitro ac i gefnogi preswylwyr sy'n agored i niwed, gan gysylltu â darparwyr cymorth allanol fel bo angen.
- Mae Polisi Cod Ymddygiad y Gymdeithas yn ymrwymo pob gweithiwr ac Aelod o Fwrdd NCH i onestrwydd gweithredoedd a thryloywder, sydd felly'n osgoi unrhyw awgrym o ddylanwad gan gymhellion anwedus.
- Mae tîm Pobl a Newid y Gymdeithas yn cynnal polisiâu caffael er mwyn amddiffyn yn erbyn caethwasiaeth a/neu masnach mewn pobol e.e. gweithredu gwiriadau cyn-gyflogi fel rhan o broses gaffael y Gymdeithas er mwyn sicrhau bod pob darpar gweithwyr gyda'r hawl yn gyfreithiol i weithio yn y DG.

Ymrwymadau NCH

- Bydd NCH yn parhau i weithredu'r uchod yn ogystal â sicrhau bod staff yn ymwybodol o risg caethwasiaeth a masnachu mewn pobl trwy ddarparu sesiynau briffio a hyfforddiant priodol trwy gydol 2018-19.

Mae'r datganiad hwn wedi'i adolygu gan y Prif Swyddog Gweithredol a'i gymeradwyo gan Fwrdd NCH ar yr 8fed o Fai 2018 a bydd yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol.

Llofnod:



Prif Weithredwr,

Dyddiad: 8fed o Fai 2018

Llofnod:



Cadeirydd y Bwrdd, Dyddiad: 8fed o Fai 2018